Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

**Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2020/21 – 2022/23**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Arweinydd Strategaeth CAYC:** | Yr Athro Colin McInnes |
| **E-bost:** | cjm@aber.ac.uk |
| **Rhif ffôn:** | 07507505703 |

## Rhan A: Golwg gyffredinol

### 1. Uchelgeisiau strategol

Mae Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth yn sôn am y rhan y mae'n ei chwarae wrth gyfrannu at ddatblygu cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt drwy ddefnyddio ei gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang; mae'n Brifysgol a arweinir gan ei gwaith ymchwil; ac mae ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol strategol yn cynnwys cynyddu ein hincwm o ymchwil, arallgyfeirio ac ehangu ein gweithgareddau cipio grantiau, ac ehangu ein gwaith arloesi. Ymhlith ei hegwyddorion allweddol mae ei Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd yn nodi cydweithredu â phartneriaid wrth yrru ymchwil yn ei blaen, ac mae hynny yn ei dro yn gwneud cyfraniad at ein cymdeithas. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb arbennig hefyd o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru, ac fe fydd ein gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth o dan y Gronfa yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwnnw.

Saif Aberystwyth mewn amgylchedd gwledig ac iddo ddwysedd poblogaeth isel. Ymhlith y prif gyflogwyr y mae'r sector cyhoeddus, twristiaeth ac amaeth. Mentrau bach a chanolig eu maint sydd yma yn bennaf, heb gwmnïau angori; o safbwynt economaidd, mae ymhlith y rhanbarthau tlotaf yng ngogledd Ewrop. Mae busnesau Ceredigion yn sôn am ddiffyg sgiliau pwysig, yn enwedig mewn dylunio a thechnoleg a diwydiannau digidol.

I'r Brifysgol, mae arloesi yn cynnwys y sector diwydiannol a'r sector diwylliannol a chreadigol fel ei gilydd. Yn ôl ein gweledigaeth bydd y Brifysgol yn dal ati i ymroi i archwilio i ffyrdd newydd o gynnal trafodaethau a meithrin cysylltiadau, yng Nghymru ac ym mhedwar ban y byd.

Bydd y Gronfa yn rhoi'r cyfle i'r Brifysgol i atgyfnerthu ac ail-frandio ei gweithgareddau arloesi a chyfnewid gwybodaeth i greu fframwaith cydlynol i gynyddu'r pwyslais a chodi'r proffil o ran yr elfennau hynny, gan ddarparu sylfaen i weddnewid y gweithgarwch. Wrth wraidd hyn y mae'r nod o sefydlu 'Talwrn Trafod' newydd, a fydd yn lle corfforol yn ogystal â chysyniad i symbylu pobl. Yn gweithio gyda ymchwil, busnes, ac yn creu cysylltiadau â'r gymdeithas sifil a'r cyhoedd

ehangach, bydd y ‘Talwrn’ yn yn gweithredu fel ein cysylltiad dinesig ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, drwy hwyluso sgyrsiau sydd yn gydweithredol, ailadroddol, yn para dros amser ac sydd wedi'u hymwreiddio'n gadarn yn y cymunedau. Gan fanteisio ar y 'newid digidol' sydd wedi digwydd oherwydd COVID-19 fe fydd y Talwrn Trafod hefyd yn hyrwyddo mwy o gyswllt â chymunedau y tu hwnt i Aberystwyth. Fel cam cyntaf o ddod â gweithgareddau a phobl fentrus ynghyd, yn ogystal â chanoli lleoliad sylfaen ar gyfer gweithredu strategaeth y Gronfa, byddwn yn sefydlu Canolfan Fenter newydd ar Barc Gwyddoniaeth Aberystwyth yn agos at dimau gwasanaethau proffesiynol cyfnewid gwybodaeth. Bydd hyn yn creu ac yn monitro momentwm o amgylch menter ac entrepreneuriaeth, gyda rhaglenni cymorth yn y pen draw yn dod yn rhan o'r 'Talwrn Trafod', y Parth Menter ac Arloesi yn yr Hen Goleg.

## 2. Grant Capasiti

Mewn dadansoddiad a gynhaliwyd yn ystod 2019-20 fe gafwyd bod angen buddsoddi mewn pum maes allweddol:

1. datblygu busnes;
2. cyfathrebu;
3. cysylltiadau sifig;
4. diwydrwydd dyladwy ac uniondeb; a
5. chymorth ar gyfer ceisiadau am grantiau ymchwil.

Defnyddir y grant capasiti i ariannu swyddi newydd yn y meysydd hyn. Er mwyn gwrthsefyll heriau recriwtio byddwn yn mabwysiadu dull rheoli newid yn seiliedig ar raglen, gan recriwtio ar gyfer rolau y Gronfa a fydd yn gweithio ar draws pob rhaglen ac yn sicrhau newid ym mhob un o'r pum maes  gan ganolbwyntio yn benodol ar arloesi a chyfnewid gwybodaeth, yn defnyddio cymorth ychwanegol hefyd sydd eisoes ar gael o'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA). Bydd y swyddi hyn hefyd yn galluogi cymorth ychwanegol i fusnesau newydd. Disgwyliwn mai arwain y Talwrn Trafod fydd un o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr YBA, a benodwyd yn ddiweddar, a fydd yn cydweithio'n agos â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil).

Rydym yn cydnabod ei bod hi’n bosib y crëir risgiau drwy gynyddu ein gweithgareddau arloesi a chyfnewid gwybodaeth. Fe fyddwn felly yn defnyddio rolau’r Gronfa sydd yn seiliedig ar raglenni  i ehangu ein darpariaeth gyfredol ac yn hwbi cefnogaeth  Moeseg ac Uniondeb . Hefyd mae’n glir bod cymorth gweinyddol ar gyfer ceisiadau grant yn werthfawr, ond ar hyn o bryd mae ein adnoddau presennol yn golygu ei bod hi’n anodd dod i ben â’r gwaith. Fe fyddwn yn defnyddio'r grant capasiti i fuddsoddi mwy yn y maes hwn.

Defnyddir y Gronfa  i ddatblygu  cryfderau ymgysylltu ag ymchwil ac arloesi  er mwyn datblygu cerbydau ymgysylltu, wedi'u mapio gan ddefnyddio'r meddalwedd Rheoli Perthynas Cwsmer newydd, a darparu'r sylfeini ar gyfer sianeli partneriaeth cyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol, megis:

Mae gwaith adeiladu Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 (https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/research-and-enterprise/research/vethub1/) bron â'i orffen ac, er mwyn sicrhau y bydd yn creu cymaint o effaith â phosib, defnyddiwn y CDCA i ariannu swydd y Cyfarwyddwr, ac elfen bwysig o'r gwaith hwnnw fydd sicrhau bod y Ganolfan a'r Labordai yn gallu chwarae rhan bwysig yng Nghymru ar ôl COVID-19. Unwaith y bydd yn gwbl weithredol, dylai fod gan y Ganolfan ddigon o weithgareddau masnachol i dalu am y swydd honno.

Mae'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol (www.aber.ac.uk/cy/rbi/national-spectrum-centre/) yn fenter a gynhelir ar y cyd â phartneriaid diwydiannol ac mae wedi cael rhywfaint o gyllid sbarduno er mwyn ailwampio un adeilad a datblygu cynllun busnes. Byddwn yn defnyddio'r Gronfa i benodi Cyfarwyddwr i ddechrau yn gynnar yn 2022 a rheoli'r Ganolfan.

Bydd meddalwedd newydd yn cael ei gaffael yn 2021 i reoli grantiau ymchwil yn effeithiol, yn ogystal â chysylltiadau masnachol a chysylltiadau busnes eraill, ac ar gyfer gweithgareddau i feithrin cyswllt â'r cyhoedd. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn cael ei integreiddio'n llawn i'n gweithrediadau yn ystod 2023.

**Adran B: Cynnwys penodol**

**3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm**

Mae masnacheiddio ein gwaith ymchwil drwy'r CAYC yn cael ei gyfeirio'n agored tuag at fudd cymdeithasol ac economaidd y Canolbarth yn benodol, ond hefyd yn ehangach o fewn Cymru ac yn rhyngwladol; a thuag at gynyddu'r grantiau ymchwil a geir hefyd.

Byddwn yn cyfuno ein gweithgareddau menter presennol yn Canolfan Fenter newydd, a fydd yn hyrwyddo a chynyddu ein gweithgareddau masnacheiddio. Bydd hynny'n golygu: datblygu ein cysylltiadau presennol ymhellach (e.e. â Germinal, Senova, Waitrose a QinetiQ) ac ailgysylltu â chwmnïau y bu gan y Brifysgol gyswllt â hwy yn y gorffennol; mentrau sy'n benodol i'r sector, a meithrin cysylltiadau â mentrau bach a chanolig eu maint yn y rhanbarth. Fe fyddwn hefyd yn defnyddio'r Talwrn Trafod yn gyfrwng i ddod â chymunedau gwahanol at ei gilydd er mwyn nodi'r anghenion cymdeithasol ac economaidd, i ystyried sut y gellid ymdrin â hwy, ac i ysgogi gweithgareddau er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Un elfen allweddol o'n gweithgaredd bydd cydweithio'n agos ag awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol, yn enwedig â Chynghorau Siroedd Ceredigion a Phowys (a fydd yn cynnwys gwaith drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru) ym meysydd:

(i) *Ymchwil i Arloesi Diwydiannol*, a fydd yn canolbwyntio ar

- Cynhyrchu a phrosesu bwydydd yn gynaliadwy,
- Biodechnoleg ddiwydiannol a'r fio-economi,
- Deallusrwydd Artiffisial/Amaethdechnoleg Ddigidol ac Arsylwi ar y Ddaear
- Un Iechyd gyda dimensiwn gwledig, a
- Sbectrwm Radio

(ii) *Arloesi Diwylliannol a Chreadigol*. Gan gydnabod y rhan y mae hyn yn ei chwarae yn economi Cymru ac ym Mhrydain yn fwy cyffredinol, defnyddiwn CAYC i ddatblygu gwaith cydweithredol â phartneriaid eraill yn y sector hwn ymhellach, gan gynnwys Cadwrfa Ddigidol Sicr Cymru, menter arfaethedig newydd ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru (https://www.llyfrgell.cymru/) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (https://cbhc.gov.uk/).

(iii) *Mentergarwch Gwledig*. Defnyddir CAYC i sefydlu Rhwydwaith Gwytnwch ac Arloesi Gwledig a'r nod o ddatblygu strategaethau arloesol ac atebion ymarferol i ddatrys problemau ar gyfer mentrau newydd a busnesau yng nghefn gwlad.

Ar ben y gweithgareddau masnacheiddio hyn, defnyddiwn CAYC i gynyddu'r cymorth a ddarparwn ar gyfer ceisiadau am grantiau, gan ddatblygu'r ddarpariaeth bresennol yn bennaf (e.e. pecynnau adnoddau, sesiynau gwybodaeth a chymorth proffesiynol), ond hefyd i ddarparu cyfleoedd newydd, er enghraifft gweithgareddau 'craffu ar y gorwel'.

Bydd y Brifysgol yn defnyddio CAYC i ganolbwyntio ar fentrau mewn pedwar maes eang:

*(i) Meithrin Cyswllt*

Drwy dderbyn egwyddor Meithrin Cyswllt y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth (https://www.keconcordat.ac.uk/), mae CAYC yn golygu y bydd gan y Brifysgol ddull o symud oddi wrth gysylltiadau sy'n codi o gyfleoedd unigol, i ddull mwy strwythuredig ar draws y Brifysgol gyfan, gan godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y tu mewn i'r Brifysgol ac â phartneriaid allanol posib. Canolbwyntir ar bartneriaid posib yng Nghymru, ond hefyd ar y rhai y tu allan i Gymru a allai fod yn gallu buddsoddi yng Nghymru, ond yn y Canolbarth yn enwedig.

Mae'r fenter hon yn cynnwys:

- datblygu llwybr presenoldeb allanol clir (gan gynnwys fforwm busnes) er mwyn hwyluso cyswllt rhwng prosiectau ymchwil mawr a busnesau;
- sefydlu rhwydweithiau sy'n benodol i'r sector ac sy'n briodol i anghenion Cymru ac i'r Canolbarth yn enwedig. Mae sectorau amaethdechnoleg a'r celfyddydau creadigol o ddiddordeb penodol, ond ni fydd y rhwydweithiau wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny yn unig;
- datblygu rheolaeth ar gyfrifon allweddol â phartneriaid strategol;

- Cynyddu'r cymorth a'r cysylltiadau â gweithgareddau ymgynghori ac ymchwil gontractiol drwy sefydlu strwythurau prisio a phrosesau wedi'u symleiddio;
- Ymgyrchoedd marchnata a fydd yn anelu at gwmnïau posib.
- Cofleidio'r cyfleoedd cydweithredol a gynigir gan Rwydwaith Arloesi Cymru (RAC) i fod yn bartner gyda Prifysgolion eraill Cymru a meithrin perthnasoedd â chyrff preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector a chynyddu incwm Ymchwil a Datblygu a gwella cyfnewid gwybodaeth.

*(ii) Galluogi*

Mae'r fenter hon yn ymdrin â'r angen i gynorthwyo â gweithgareddau masnacheiddio, ac yn cael ei thywys gan Gynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf a luniwyd gan Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ym Mai 2020 https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/tyfu-canolbarth-cymru/ ac wedi'i hanelu at Fargen Twf Canolbarth Cymru a phrosiectau eraill a seilir ar leoedd penodol. Fe'i defnyddir i gynorthwyo â mentrau penodol a darpariaeth fwy cyffredinol. Y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol yw'r enghraifft allweddol o'r mentrau penodol hynny. Llywodraeth Cymru sydd wedi ariannu'r Asesiad o Effaith Economaidd ar gyfer y Ganolfan honno ac fe ddefnyddir CAYC i ddarparu cymorth datblygu busnes. Mae'r ddarpariaeth fwy cyffredinol yn cynnwys gwaith i ddatblygu arbenigedd yn ganolog er mwyn darparu gwell cymorth i weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth, gan gynnwys ailwampio'r 'pecyn adnoddau' i gynnwys eiddo deallusol, masnacheiddio a meithrin cyswllt â busnesau; yn ogystal â chynllun rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid i'r Brifysgol gyfan er mwyn casglu manylion y contractau presennol a'u dadansoddi er mwyn targedu cysylltiadau newydd â byd diwydiant a rhanddeiliaid.

*(iii) Cyfranogi*

Byddwn yn defnyddio CAYC er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn chwarae mwy o ran mewn meysydd allweddol lle y mae partneriaid yn dod at ei gilydd ac mae gennym gryfder ymgysylltu ag ymchwil ac arloesi. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau (megis rhwydweithiau busnes lleol a chenedlaethol, er enghraifft, Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth https://www.mwmg.org/ ) a llwyfannau ar-lein (e.e. CIEL: Canolfan Rhagoriaeth Arloesi mewn Da Byw https://www.cielivestock.co.uk/). Canolbwyntiwn ar gynyddu'r cyfleoedd i fasnacheiddio a chodi proffil ymchwil y Brifysgol a'i thechnolegau dan batent drwy gynnal cyswllt â llwyfannau ar-lein i hybu a denu cyfleoedd newydd ar gyfer trwyddedu (e.e. IN-PART https://in-part.com/).

*(iv) Cefnogaeth*

Gan ddatblygu o'r gweithgareddau yn ‘Strengthening the Research Base’ CCAUC, byddwn yn cyflwyno 'Cronfa Masnacheiddio a Chyfnewid Gwybodaeth' sylweddol i ddarparu cymorth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, trosglwyddo technoleg a

| |
|---|
| masnacheiddio ymchwil. Byddwn yn buddsoddi i sicrhau gwell hyfforddiant a threfniadau mentora ar gyfer busnesau newydd ac ymgeiswyr am grantiau, yn enwedig i ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfa, a defnyddio 'pyllau tywod' yn ehangach er mwyn datblygu mentrau grant ymchwil, wedi'u hanelu yn benodol at gyllid gweithredol â phartneriaid y tu allan i addysg uwch. Byddwn yn cynyddu ein cymorth proffesiynol am geisiadau am grantiau ac yn ariannu cyfnodau absenoldeb ar gyfer paratoi am geisiadau grant mawr (megis Canolfannau Ymchwil, isadeiledd ymchwil, Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol). |
| **3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:** |
| Oherwydd ansicrwydd argyfwng COVID-19, bu'n anodd inni osod targedau pendant i'r dangosyddion perfformiad allweddol isod, yn benodol oherwydd na allwn bennu gwaelodliniau cadarn i fod yn sylfaen ar gyfer datblygu rhagamcanion at y dyfodol.<br><br>Dangosyddion Perfformiad Allweddol:<br><br>1. Datblygu'r Talwrn Trafod - Cam un. Datblygu'r cysyniad a'r dulliau i'w defnyddio, sefydlu'r adnoddau i gynorthwyo â'r gweithgareddau, a dechrau gosod nodau strategol.<br><br>2. Datblygu'r Talwrn Trafod - Cam Dau. Tyfu a symud i'r adnoddau newydd yn yr Hen Goleg (tua 2023).<br><br>3. Gweithredu i feithrin cysylltiadau a phartneriaethau â llywodraethau rhanbarthol, gan gynnwys: Ceredigion, Powys a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, gan gynorthwyo â '*Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru'*, rhaglen Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Bargen Twf Canolbarth Cymru, a gweithgorau rhanbarthol e.e. ym meysydd cymorth ar gyfer mentrau masnachol, cyflogadwyedd a sgiliau.<br><br>4. Sicrhau o leiaf £20M mewn buddsoddiadau cyfalaf o Fargen Twf Canolbarth Cymru, wedi'u cysylltu â mentrau ym meysydd blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn Ymchwil Arloesi Diwydiannol.<br><br>5. Sefydlu llif amlwg o weithgarwch mewn Ymchwil Arloesi Diwydiannol, a fydd yn cynnwys sefydlu Canolfan Ymchwil Sbectrwm Genedlaethol yn y Canolbarth.<br><br>6. Sefydlu menter Cadwrfa Ddigidol Sicr Cymru ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol a sicrhau £70M+ o fuddsoddiad i'r rhanbarth.<br><br>7. Adeiladu ar sylfaen y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gwaith cydweithredol â rhanddeiliaid eraill e.e. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, gyda'r nod o sefydlu Canolfan Ymchwil ac Arloesi diwylliannol. |

8. Sefydlu Rhwydwaith Gwytnwch ac Arloesi Gwledig er mwyn datblygu strategaeth i gefnogi mentrau newydd a busnesau yng nghefn gwlad.

9. Datblygu pecyn adnoddau a darparu hyfforddiant i staff academaidd ar weithgareddau cyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys eiddo deallusol, masnacheiddio a meithrin cyswllt â busnesau.

10. Datblygu 4 partneriaeth strategol â sectorau busnes a diwydiant dros y tair blynedd nesaf (o'r waelodlin bresennol, sef dim).

11. Cynyddu'r nifer o geisiadau i Ymchwil ac Arloesi y DU, a chynyddu gwerth y ceisiadau hynny, gan ganolbwyntio ar Innovate UK (o'r waelodlin, sef 6 chais i Innovate UK yn 2019–20).

12. Cynyddu nifer a gwerth y ceisiadau am gyllid Arloesi e.e. Rhaglenni Cyllid cyfieithu.

13. Cynyddu'r incwm o waith ymgynghori 15% (gan ddefnyddio data HEBCi ar gyfer 2019/20 a gyhoeddir ym Mawrth 2021 yn waelodlin).

14. Cynyddu'r incwm o Ymchwil Gontractiol 15% (gan ddefnyddio data HEBCi ar gyfer 2019/20 a gyhoeddir ym Mawrth 2021 yn waelodlin).

15. Datblygu a gweithredu system Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid er mwyn cofnodi, monitro a datblygu strategaethau i feithrin cysylltiadau allanol drwy'r Brifysgol gyfan.

16. Cyflwyno strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sy'n anelu at fodloni gofynion Egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth ar Egwyddorion Meithrin Cyswllt a Pholisïau a Phrosesau.

17. Ymgysylltu â Rwydwaith Arloesi Cymru i:
- cefnogi cyflawni nod y Rhwydwaith o sicrhau £30m ychwanegol i sefydliadau Cymru dros gyfnod cychwynnol o dair blynedd.
- adrodd ar ddata ar gynigion a ddatblygwyd

**3.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

☑ Rhagoriaeth
☑ Lle
☑ Arloesi
☑ Cydweithredu

**3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

Mae ein ffordd o weithio, - a'n huchelgais strategol, o safbwynt masnacheiddio gan ddefnyddio CAYC - yn adlewyrchu'n gryf *Y Weledigaeth ar gyfer Cymru* gan CCAUC a'r pedair elfen:

- Rhagoriaeth: drwy ganolbwyntio ar ein cryfderau presennol, gan gynnwys technoleg fwyd, biodechnoleg a'r fio-economi a hefyd ar astudiaethau theatr, ffilm a theledu, yn ogystal â chanolbwyntio ar feysydd lle y gallwn ddatblygu cryfder megis milfeddygaeth; a thrwy gynyddu'r cymorth a ddarperir am geisiadau grant.
- Lle: drwy ymwybyddiaeth gref o anghenion a phosibiliadau'r Canolbarth yn benodol a Chymru yn fwy cyffredinol, gan gynnwys y sbectrwm radio, yr economi wledig a Bargen Twf Canolbarth Cymru.
- Arloesi: drwy bwysleisio'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol a'r sbectrwm radio, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (ArloesiAber, https://aberinnovation.com/) ac amaeth-/bio-dechnoleg a gwyddor filfeddygol ac Un Iechyd.
- Cydweithredu; drwy sefydlu'r Talwrn Trafod yn gyfrwng i hybu a hwyluso masnacheiddio ar draws sectorau, a thrwy feithrin cysylltiadau agosach â'n partneriaid presennol (megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Dyma ein hamcanion i'r tymor byr: datblygu'r buddsoddiadau diweddar yn gysylltiedig â'n cryfderau ymgysylltiad ymchwil ac arloesi (AberArloesi, Canolfan a Labordai Milfeddygol 1), gweithio ar fentrau newydd (y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol, y Talwrn Trafod, Canolfan Fenter) a chynyddu'r cymorth sydd ar gael i fasnacheiddio, er mwyn ymsefydlu mewn modd cynaliadwy i sicrhau mwy o fasnacheiddio i'n gwaith ymchwil. Yn y tymor canolig (h.y. y tu hwnt i gyfnod CAYC), mae'r cerrig milltir yn cynnwys: creu diwylliant ffyniannus o ragoriaeth ymchwil,arloesi a cyfnewid gwybodaeth; adeiladu ar enw da AberArloesi a'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol i sefydlu parc gwyddoniaeth; a sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer 'craffu ar y gorwel', a'r nod yn y pen draw o sicrhau lle Prifysgol Aberystwyth fel y ganolfan ymchwil a masnacheiddio technoleg uwch yn y Canolbarth.

## 4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

Ein nod pennaf fydd datblygu pecynnau datblygu proffesiynol parhaus (DPP). Bydd y rhain:

1. yn mynd i'r afael â'r diffyg sgiliau presennol yng Nghymru (a'r Canolbarth yn benodol);
2. yn ymateb i'r problemau cyflogaeth a ragwelir yn sgil COVID-19.
3. darparu cymorth i'r 'Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid' (CEI).

Yn ystod y cyfyngiadau ar symud oherwydd COVID-19, gan ddefnyddio Zoom ar gyfer darpariaeth ddwyieithog, datblygasom 75 o fodiwlau a chyrsiau byrion dysgu-

o-bell arloesol i helpu ein dysgwyr presennol a dysgwyr newydd i feithrin sgiliau newydd. Mae'r fformat hwn wedi denu llawer o ddysgwyr newydd, yn enwedig dysgwyr ag anableddau a fyddai wedi'i chael hi'n anos dilyn cyrsiau mwy traddodiadol efallai. Caiff hynny sefyll fel prawf o'r cysyniad o ran defnyddio CAYC i ddatblygu darpariaeth DPP ar-lein. Yn benodol, drwy symud i gymysgedd o ddysgu ar-lein a dysgu wyneb-yn-wyneb i sesiwn 2020/21, rydym yn datblygu cronfa o ddeunydd ac arbenigedd a allai fod yn addas i DPP. Drwy adeiladu ar sylfaen llwyddiannau prosiectau DPP a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (e.e. Bio-arloesi Cymru a Chynhyrchu Cyfryngau Uwch), fe fyddwn yn datblygu a gweithredu strategaeth DPP gydlynol. Ar ben popeth arall, fe fydd hyn yn helpu academyddion i ddatblygu darpariaeth DPP newydd yn ogystal â chynorthwyo â masnacheiddio DPP gan ddefnyddio mewnwelediadau a gafwyd o'n haelodaeth o brosiect Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a'n hymchwil ragarweiniol ar alw micro-gredydau am y rhanbarth. Bydd hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru (a'r Canolbarth yn benodol), yn ogystal â chyd-fynd â'r 'Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid' a'r rhaglen Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn yr Hen Goleg i ddarparu cyfrwng i bobl ifainc y rhanbarth i ddatblygu sgiliau pwysig a potensial cychwyn busnes.

Yn ogystal â DPP, mae'r Brifysgol wedi dechrau buddsoddi yn ddiweddar - gyda phartneriaid cyllido eraill - mewn cyfres o adnoddau pwysig newydd a rhai wedi'u hailwampio ar gyfer datblygu busnesau newydd, gan bwysleisio anghenion Cymru (a'r Canolbarth) yn benodol. Mae CAYC yn rhoi cyfle inni i ariannu gweithgareddau sy'n defnyddio'r adnoddau hyn. Yn benodol:

1. *Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (AberArloesi* https://aberinnovation.com/). Prosiect cyfalaf gwerth £40.5m yw hwn, wedi'i ariannu drwy fuddsoddiad gan y Brifysgol, Ymchwil ac Arloesi y DU a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac fe fydd y gwaith adeiladau yn cael ei orffen cyn hir. Mae'r adnoddau, o'r safon ddiweddaraf, yn darparu llwyfan i hybu gwaith arloesol, yn benodol yn sectorau technoleg amaeth a biodechnoleg ar gyfer sylfaen wybodaeth y brifysgol. Byddwn yn defnyddio CAYC er mwyn cynyddu'r lle sydd ar gael i fentrau newydd yng Nghampws Arloesi a Menter Aberystwyth drwy ailwampio'r lle sydd ar gael ar hyn o bryd ar y Campws hwnnw yng Ngogerddan. Rydym hefyd wedi cynnal rhagbrofion (heb eu cyllido) o raglen parodrwydd buddsoddwyr ar gyfer mentrau newydd a mentrau deillio - 'BioAccelerate' - er mwyn profi'r farchnad yn y Canolbarth am hyfforddiant menter busnes ym meysydd rheoli rhanddeiliaid, datblygu cynigion o werth, a chyflwyno cysyniadau busnes nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n fanwl yn y cymorth cyffredinol i fusnesau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir CAYC i estyn hyn i'r staff a'r myfyrwyr yn y Brifysgol ac i fentrwyr busnes yn y gymuned leol.

2. *Y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol (CSG,* https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/national-spectrum-centre/ ). Menter a'r nod i greu ecosystem ar y cyd rhwng llywodraethau, byd diwydiant ac academia i nodi, datblygu a dangos y technolegau galluogi sydd eu hangen er mwyn

sicrhau, ehangu a manteisio i'r eithaf ar y gwerth a ddaw yn sgil hynny i'r Brydain Ddigidol trwy ddefnyddio'r sbectrwm electromagnetig. Bydd yn darparu llwyfan i gynnal gwaith cydweithredol rhwng byd diwydiant a'r byd academaidd ac fe fydd yn darparu'r arbenigedd y bydd ei angen i gynnal ymchwil i systemau sy'n dibynnu ar y sbectrwm. Bydd y Ganolfan a'r Brifysgol hefyd yn darparu hyfforddiant ac addysg i fireinio sgiliau ym myd diwydiant er mwyn darparu'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr sbectrwm. Defnyddiwn y CAYC i helpu i ddatblygu sgiliau drwy'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol drwy gyfrwng ysgoloriaethau a dargedir yn benodol.

3. *Canolfan a Labordai Milfeddygol 1* ([https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/research-and-enterprise/research/vethub1/](https://www.aber.ac.uk/cy/ibers/research-and-enterprise/research/vethub1/)). Dyma fenter newydd o bwys i ymchwil filfeddygol gan y Brifysgol, gyda chefnogaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop). Drwy ddarparu'r unig labordy yn y Canolbarth (sydd ar gael i fusnesau) sydd ag adnoddau ynysu lefel-uchel (CL2 ac CL3) ar gyfer gweithio ar feicro-organebau pathogenaidd, mae Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yn Glwstwr Menter a ariennir gan yr UE a fydd yn meithrin cyswllt â mentrau bach a chanolig eu maint, sefydliadau addysg uwch, a chwmnïau rhyngwladol i ddatblygu ymchwil a gweithgareddau masnachol a fydd yn targedu afiechydon sydd yn enwedig o berthnasol i Gymru o safbwynt milheintiol ac iechyd anifeiliaid.

   Bydd Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 yn agor yn hydref 2020, a bydd hefyd yn gweithio gyda'r llywodraeth (y Brif Swyddfa Filfeddygol) a darparwyr eraill (e.e. Canolfan Milfeddygaeth Cymru) i gyd-fynd â gwasanaethau Milfeddygol cynorthwyol ledled Cymru ac i ategu'r adnoddau sydd ar gael yn genedlaethol (ar gyfer canfod pathogenau). Byddwn hefyd yn cynorthwyo ein defnyddwyr a'n partneriaid wrth ddatblygu busnesau newydd a mentrau deillio.

   Drwy gynnig gwasanaethau milfeddygol yng Nghymru sy'n cael eu cynnal mewn mannau eraill (Lloegr a'r Alban) fel arfer, a thrwy gynorthwyo â chanfod pathogenau lle nad yw'r adnoddau presennol yn gallu ymdopi â maint y galw, bydd y Ganolfan a'r Labordai yn cyfrannu at y rhwydwaith gwytnwch cenedlaethol, gan gynorthwyo â milfeddygfeydd, gwaith rheoli achosion o filheintiau, a ffermwyr. Bydd effaith ychwanegol gwasanaethau'r Ganolfan a'r Labordai hefyd yn cynorthwyo â strategaethau a pholisïau Llywodraethau lleol a chenedlaethol, o ran datblygiadau yn y dyfodol ac o ran gweithredu'r rhai presennol. Bydd y Ganolfan a'r Labordai hefyd golygu y bydd modd datblygu cynnyrch a gwasanaethau gwell a newydd i helpu'r diwydiant iechyd anifeiliaid yn y Canolbarth. Gan y bydd modd codi ffioedd am wasanaethau'r Ganolfan a'r Labordai, bydd yr effaith economaidd yn arwain at dwf a datblygiadau rhanbarthol (swyddi ac incwm newydd) yn ogystal ag annog mwy o fuddsoddi ac arloesi.

   Bydd CAYC yn darparu cyllid ar gyfer gwaith ymgynghorol gwyddonol a thechnegol ar gyfer:

- Dod o hyd i ddefnyddwyr allanol sydd ag angen deunydd biofferyllol (adweithredyddion meicrobaidd a pharaseitolegol) er mwyn cynnal neu ddatblygu diagnosteg iechyd anifeiliaid/dynol/milheintiol (e.e. Proteinau llyngyr iau a gwaed, Tb Ag/lipidau, ac yn y blaen)
- Datblygu ardystiadau a fydd yn cael eu hachredu gan UKAS ar gyfer canfod pathogenau
- Cydweithio â llywodraethau er mwyn cydlynu strategaethau cenedlaethol wrth gefn ar gyfer canfod pathogenau
- Dod o hyd i ddefnyddwyr allanol sydd ag angen sgrinio gwrth-feicrobaidd ac anthelmintig.
- Datblygu model busnes ar gyfer y gwasanaethau

Y nod yw dod o hyd i fuddiannau gwyddonol masnachol Canolfan a Labordai Milfeddygol 1 a'u datblygu i greu busnesau newydd neu gwmnïau deillio. Byddai datblygu gwasanaethau canfod, sgrinio a gwyliadwriaeth am bathogenau hefyd yn ymdrin â'r pryderon sy'n tyfu ynghylch trosglwyddo afiechydon anifeiliaid a milheintiau sy'n berthnasol i'r Canolbarth a'r Gorllewin, ond sydd hefyd yn amlwg yn bwysig i economïau eraill ledled y byd.

4. *Yr Hen Goleg.* Bydd yr adeilad hanesyddol hwn ger y lli yn cael ei ailagor yn 2023; bydd yn cynnwys Parth Menter ac Arloesi penodol. Anelir y Parth hwnnw yn benodol at feithrinfeydd i fusnesau newydd a mentrwyr ifainc (mae rhywfaint o gyllid gan y CCAUC eisoes wedi'i sicrhau). Defnyddiwn y CAYC i ddatblygu ein cynlluniau ymhellach ar sut i weithredu'r Parth yn effeithiol, gan gydweithredu â'r 'Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuencid' (YEP) ac â rhanddeiliaid lleol.

Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth i fusnesau newydd drwy ddarparu hyfforddiant a lle. Mae Aberystwyth yn darparu cymorth eisoes i fusnesau newydd drwy:

- Swyddfeydd AberArloesi – Swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod, gyda'r holl wasanaethau'n cael eu darparu, ar gyfer arloeswyr, mentrau newydd a busnesau yn sectorau biowyddoniaeth, amaethdechnoleg, a bwyd a diod.
- Deorfa meddalwedd myfyrwyr – man cydweithio i fyfyrwyr a grwpiau o fyfyrwyr i ddatblygu cynnyrch meddalwedd/apiau gyda'r offer cyfrifiadurol diweddaraf.
- Stiwdios Creadigol Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth – cwlwm creadigol o 18 o fannau agored a hyblyg ar gyfer busnesau yn y celfyddydau, artistiaid a chrefftwyr.

Mae'r Hen Goleg hefyd yn cynnwys Swyddfa Feithrin a mannau ar gyfer busnesau a gychwynnir o fewn y Brifysgol yn y sectorau creadigol, cyhoeddi, apiau, gwefannau a gwasanaethau digidol, cerddoriaeth a ffilm.

Gyda chyllid CAYC byddwn ni'n gwella'n sylweddol ein darpariad o fannau cychwyn busnes, graddio i fyny a deillio drwy ddatblygu llawr uchaf cyfan Adeilad Milford. Bydd hwn yng Ngogerddan, uwchben y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol

ac wrth ymyl ArberArloesi a safle'r Parc Arloesi arfaethedig (rhan o gynnig Bargen Twf Canolbarth Cymru PA); credwn y bydd hyn yn darparu gallu sylweddol i ddatblygu swyddi a busnesau newydd Yn 2021 agorwn ochr ogleddol y llawr, gan gwblhau'r gwaith adnewyddu yn ystod cyfnod y CAYC.

Byddwn hefyd yn ymgymryd â'r mentrau newydd isod :

5. Y cam mwyaf arwyddocaol fydd sefydlu Canolfan Fenter (gweler uwchben) a fydd yn cydlynu'r amrywiaeth o weithgareddau, sydd eisoes ar waith ac sydd yn yr arfaeth, i gefnogi busnesau. Cynllun YEP fydd yn elfen allweddol yn hynny.
6. Atgyfnerthu gweithgareddau menter presennol y Brifysgol, gan gynnwys ENACTUS (sef cymdeithas menter gymdeithasol y myfyrwyr sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd); Mentora Syniadau Mawr Cymru (a gydlynir gennym ni ar y cyd â'n partner Antur Teifi) a gweithgareddau yn ein Hysgol Busnes, adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi, ac AberArloesi.
7. Darparu hyfforddiant i staff ymchwil a myfyrwyr (gan gynnwys uwchraddedigion ymchwil ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol ar sefydlu busnesau newydd.
8. Sefydlu modd o hwyluso cysylltiadau er mwyn galluogi busnesau newydd a chwmnïau deillio i dyfu.
9. Cynorthwyo ymgeiswyr y Brifysgol â'u ceisiadau am gynllun I-CURe Innovate UK neu raglenni tebyg, yn darparu cyllid am gostau cyflogau; a sefydlu rhaglen o absenoldebau gyda thâl i staff er mwyn datblygu cyfleodd am gwmnïau deillio.
10. Datblygu cyfleoedd i fasnacheiddio ymchwil nad yw'n ymwneud â'r meysydd STEM drwy gyfrwng llwyfannau ar gyfer menter fasnachol, masnacheiddio a trawsnewid e.e. drwy ymuno â Rhwydwaith ASPECT (https://aspect.ac.uk/).
11. Adeiladu ar sail mentrau sydd wedi'u sefydlu megis y Ddeorfa Meddalwedd Myfyrwyr i ddatblygu fframwaith o gymorth i ddatblygu apiau, gan gynnwys strategaethau datblygu a dosbarthu.
12. Ystyried cysylltiadau posib â Cholegau Addysg Bellach yng Ngheredigion a Phowys i ddatblygu llif sgiliau, gan adeiladu ar sylfaen y cyswllt presennol â Choleg Cambria.

**4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

1. Datblygu strategaeth, polisi a gweithdrefnau canolog ar gyfer darparu DPP ar draws y Brifysgol.

2. Ehangu ac amrywio'r ddarpariaeth DPP bresennol a thargedu sectorau newydd. Cynyddu Diwrnodau Dysgwyr 10% y flwyddyn (gan ddefnyddio data HEBCi ar gyfer 2019/20 a gyhoeddir ym Mawrth 2021 yn waelodlin).

3. Campws Arloesi a Menter Aberystwyth/AberArloesi: Ariannu dwy rhaglen 'Bio-Accelerator' bob blwyddyn i fusnesau newydd/cwmnïau deillio.

4. Y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol: ariannu 3 grant ffioedd-yn-unig i fyfyrwyr ar raglenni MSc.

5. Canolfan a Labordai Milfeddygol: Sefydlu strategaeth a gweithdrefnau i dargedu sgrinio masnachol, pennu'r costau a darparu'r gwasanaeth.

6. Yr Hen Goleg: llunio cynllun gweithredu i'r Parth Menter ac Arloesi.

7. Sefydlu Canolfan Fenter o fewn y Talwrn Trafod a datblygu strategaeth gydgysylltiol a phrosesau cydlynol i ddarparu cymorth menter i fyfyrwyr, graddedigion, staff a busnesau.

8. Cyfranogi o Rwydweithiau Busnes lleol a rhanbarthol a chynnal a sefydlu rhwydweithiau newydd e.e. Rhwydwaith Menter Canolbarth Cymru, yn tyfu o'r man cychwyn, sef 4 cyfarfod yn y flwyddyn.

9. Sefydlu Grŵp Mentrwyr Busnes Cyn-fyfyrwyr (creu rhwydwaith, cynnal digwyddiadau a mentora) gan gydweithio â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni.

10. Cyflwyno Academyddion Hybu Menter i hyrwyddo mentergarwch yn y Cyfadrannau a'r Adrannau. Cyrraedd y targed am fusnesau newydd gan raddedigion y 'Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid' (CEI), sef 20 yn 2021, a chyrraedd y targedau i 2022 (sef 22) ac i 2023 (sef 24).

11. Helpu staff, uwchraddedigion a myfyrwyr doethurol mentergar i ddatblygu cyfleoedd am fusnesau newydd / mentrau deillio drwy gyflwyno grantiau gwerth cyflog 6 mis ar gyfer:
    i. Uwchraddedigion a myfyrwyr doethurol sydd ar ddiwedd eu hastudiaethau
    ii. Grantiau 'Absenoldeb Arloesi' i staff.

12. Datblygu a gweithredu Polisi Mentrau Deillio.

13. Sefydlu 3 menter ddeillio a seilir ar eiddo deallusol y Brifysgol, dros 3 blynedd.

14. Sefydlu swyddfeydd a gweithdai newydd a ailwampiwyd yn unswydd ar gyfer busnesau newydd a mentrau deillio ar Gampws Gogerddan y Brifysgol.

15. Datblygu cynlluniau i gynorthwyo a chyfrannu at fasnacheiddio ymchwil nad yw'n ymwneud â'r meysydd STEM.

16. Datblygu strategaeth, polisi a gweithdrefnau i ddatblygu apiau a'u dosbarthu, gan gynnwys cymorth a mentora.

17. Hyrwyddo cysylltiadau â Cholegau Addysg Bellach yn y rhanbarth i ddatblygu map a llif sgiliau.

**4.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

☑ Rhagoriaeth
☑ Lle
☑ Arloesi
☑ Cydweithredu

**4.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer twf busnes newydd a sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

Ein nod yn ystod tair blynedd cyfnod CAYC yw sefydlu model cynaliadwy i ddarparu sgiliau a datblygu busnes. Ein nod yn y tymor canolog yw sefydlu'r Talwrn Trafod yn ddarparwr sgiliau allweddol i'r Canolbarth, a fydd yn estyn allan y tu hwnt i'r fro ac yn cynnwys cysylltiadau cryf â cholegau addysg bellach, gyda'r Ganolfan Fenter yn ganolfan ragoriaeth gydnabyddedig ar gyfer datblygu busnesau newydd. Yn y pen draw ein huchelgais yw cynyddu'r nifer o fentrau cydweithredol â byd diwydiant yn sylweddol drwy ddatblygu AberArloesi, y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol, y Ganolfan a Labordai Milfeddygol a Chadwrfa Ddigidol Sicr Cymru yn benodol fel canolfannau rhagoriaeth ryngwladol cydnabyddedig, a'r Brifysgol hithau'n yn ddarparwr DPP cenedlaethol a fydd â dylanwad rhyngwladol.

Mae ein ffordd o weithio wedi'i dylanwadu'n sylweddol gan ymdeimlad o frogarwch ac ymwybyddiaeth o anghenion y Canolbarth yn benodol, a Chymru'n fwy cyffredinol o safbwynt datblygu sgiliau a chyfleoedd busnes. Er enghraifft, o safbwynt y Canolbarth, natur wledig y rhanbarth yn bennaf, a'r ffaith bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi'u lleoli yn agos i safle Penglais y Brifysgol, ac yn genedlaethol drwy'r cyfleoedd a ddarperir gan yr adnoddau sbectrwm radio sydd eisoes i'w cael yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar sylfaen y cryfderau ymchwil sydd eisoes gennym ac sy'n cael eu datblygu, yn enwedig ym meysydd amaeth-/bio-dechnoleg, milfeddygaeth a chynhyrchu'r cyfryngau, ac ar y gwaith cydweithredol ag ystod o bartneriaid, ac ar yr un pryd yn ystyried y potensial i ddatblygu cysylltiadau newydd â Cholegau Addysg Bellach a thrwy'r Ganolfan Fenter. Ac mae'n canolbwyntio ar arloesi drwy ddarparu'r gallu a'r dulliau ar gyfer adeiladu a datblygu busnesau newydd.

## 5. Cenhadaeth Ddinesig a Meithrin Cyswllt â'r Cyhoedd

Gweledigaeth y Brifysgol, yn unol â'i Chynllun Strategol

https://www.aber.ac.uk/cy/strategicplan/, yw ‘cyfrannu at y gymdeithas yng Nghymru a’r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang’. Rydym yn enwedig o ymwybodol o'n cyfrifoldebau i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac i'r heriau a godir o ran y genhadaeth ddinesig ac o ran meithrin cyswllt â'r cyhoedd mewn ardal wledig ac iddi boblogaeth isel ei dwysedd. Mae hynny'n dylanwadu ar ein strategaeth CAYC, ond nid yw'n cyfyngu arni. Mae'r Brifysgol hefyd yn rhan o'r Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig a arweinir gan Brifysgolion Cymru, lle mae Aberystwyth yn cael ei gynrychioli gan arweinydd academaidd rhaglen ‘Y Byd a Hoffem’ a fydd yn cysylltu ein galluoedd a chynnal dull mwy cydlynol o ymdrin â'r gweithgareddau hyn ledled Cymru ac yn hwyluso rhannu'r arfer gorau.

Defnyddiwn CAYC i ddatblygu'r weledigaeth hon mewn tair ffordd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu cymdeithasol, drwy gydnabod y buddiannau economaidd a ddaw yn ei sgil hefyd (e.e. drwy dwristiaeth):

- Mwy o weithgareddau i feithrin cyswllt â'r cyhoedd, gan gynnwys gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac o bosib drwy gydweithredu â Phrifysgol Bangor er mwyn inni gwmpasu'r Canolbarth a'r Gogledd;
- Meithrin cyswllt â phobl ifainc; a
- Gŵyl Ddigidol.

Un thema sylfaenol i'r rhain fydd ‘Y Byd a Hoffem’, sef dull rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol o edrych ar fywyd yn sgil COVID-19, a fydd yn cynnwys cymunedau y tu allan i'r Brifysgol ac yn manteisio ar ysbryd y Talwrn Trafod a Parth Menter ac Arloesi fel ‘hafan ddiogel’ am waith rhyngweithiol. Yn ogystal â hyn, bydd y gweithgareddau DPP a ddisgrifir yn adran 4 yn cynnwys elfen gref o genhadaeth ddinesig, yn cyd-fynd â thema ‘Menter Gymdeithasol ac Arloesi’.

*(i) Meithrin Cysywllt â'r Cyhoedd.* Mae'r Talwrn Trafod yn adeiladu ar sylfaen ein traddodiad hirsefydlog a chryf o genhadaeth ddinesig. Er enghraifft, mae adran Dysgu Gydol Oes y Brifysgol newydd ddathlu ei chanmlwyddiant, a hi oedd yr adran astudiaeth allanol gyntaf yng Nghymru, a'r hynaf ond un drwy wledydd Prydain. Bydd CAYC yn golygu y gallwn, drwy'r Talwrn Trafod, ymdrin - yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol - â phob un o'r pedair thema Cenhadaeth Ddinesig.

a. Darlithoedd cyhoeddus. Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes hir o roi darlithoedd cyhoeddus lle y mae ymchwilwyr yn creu cyswllt â'r gymuned. Traddodir darlithoedd gan staff y Brifysgol a chan ymwelwyr, gan gynnwys y gyfres uchel ei bri o Ddarlithoedd Gregynog, sydd wedi'u hatal ers sawl blwyddyn erbyn hyn. Defnyddiwn y CAYC i roi byd newydd i raglen Darlithoedd Gregynog, gan ganolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth, ac i ddatblygu ffrwd fyw, gan ddefnyddio technolegau rhyngweithiol, a thrwy hynny byddwn yn gallu creu cyswllt â'r gymuned ledled Cymru.

b. Gŵyl Ymchwil. Bydd yr achlysur blynyddol hwn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, o ddarlithoedd ffurfiol a gweithdai i gystadlaethau a byrddau trafod ar-lein, yn canolbwyntio ar thema benodol (megis COP26 https://www.ukcop26.org/, Deallusrwydd Artiffisial ayyb), a fydd yn golygu y bydd ymchwilwyr y brifysgol yn cael cyswllt â grwpiau cymunedol (gan gynnwys ysgolion) ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Canolbarth.

c. Digwyddiadau ar-lein. Mae sefyllfa COVID-19 wedi dangos bod potensial cynnal digwyddiadau ar-lein, gan gynnwys digwyddiadau diwylliannol/creadigol. I'r Brifysgol, mae hynny'n golygu bod gennym gyfle i feithrin cysylltiadau'n fwy eang o lawer â chymunedau yng Nghymru: digwyddiadau sy'n amrywio o agoriadau arddangosfeydd (model a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gan yr Amgueddfa Brydeinig) i berfformiadau (model a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus gan Royal Shakespeare Company), i drafodaethau a dadleuon ar bynciau'r dydd. Un cam pwysig ymlaen yw'r ffaith bod datblygiadau meddalwedd erbyn hyn yn golygu bod modd cynnwys cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau o'r fath.

*(ii) Meithrin Cyswllt â Phobl Ifainc.*

Mae'r cynlluniau i ailddatblygu'r Hen Goleg yn cynnwys lle penodol i bobl ifainc - 'Man Ymgysylltu Ieuenctid' - yn rhan o thema 'Byd o Wybodaeth' https://www.aber.ac.uk/cy/oldcollege/future-plans/delweddauacynlluniau/. Nod y lle hwnnw yw darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd addysg. Mae ein pobl ifainc yn byw mewn rhanbarth sydd ymhlith y rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf, o safbwynt cymdeithasol-economaidd, drwy Brydain a'r UE; mae'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn gyfyngedig ac mae cyflogau isel yn golygu bod lefelau uchel o dlodi ymhlith y gweithlu lleol. Mae plant yn byw ar draws ardal eang ac yn aml mae'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifainc yn dameidiog, os ydynt i'w cael o gwbl. Cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael am weithgareddau dysgu y tu allan i'r dosbarth, ac mae cryn risg o ddioddef unigedd gwledig ac allgáu cymdeithasol. Mae busnesau Ceredigion yn sôn am ddiffyg sgiliau pwysig, yn enwedig mewn dylunio a thechnoleg a diwydiannau digidol. Mae darparwyr gwasanaethau statudol, grwpiau ieuenctid a grwpiau'r trydydd sector ledled y sir yn dweud bod diffyg mannau niwtral addas i gynnal gweithgareddau a chyfarfodydd â phobl ifainc yng nghanol tref Aberystwyth. Ein nod yw creu canolfan dysg, diwylliant a menter i bobl ifainc yn adeilad eiconig yr Hen Goleg. Bydd yn darparu cyfleoedd sylweddol a chynaliadwy i ysbarduno dulliau newydd o weithio gyda phobl ifainc, grwpiau ieuenctid a'r cyngor sir. Byddwn yn defnyddio CAYC er mwyn datblygu'r cysyniad hwn cyn i'r adeilad ailagor yn 2023. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i themâu 'Dinasyddiaeth Weithredol' a 'Lle Arweiniol' ac yn anuniongyrchol berthnasol i 'Gysylltiadau ag Ysgolion'.

*(iii) Gŵyl Ddigidol.* Mae prosiect ailddatblygu'r Hen Goleg yn bartner i Ŵyl y

| |
|---|
| Gelli er mwyn cynyddu dylanwad yr Ŵyl ar Gymru. Defnyddiwn y CAYC i ddatblygu dimensiwn digidol i'r berthynas honno, a fydd yn golygu y gallwn feithrin cysylltiadau ledled Cymru a'r tu hwnt. Mae hyn yn cyd-fynd â themâu 'Dinasyddiaeth Weithredol', 'Lle Arweiniol' a 'Chysylltiadau ag Ysgolion' drwy ganolbwyntio'n benodol ar rai gweithgareddau lle y cydweithir ag ysgolion. |
| **5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig a meithrin cyswllt â'r cyhoedd** |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol:<br>*1.* Sefydlu isadeiledd clyweledol o'r radd flaenaf ym mhob rhan o'r brifysgol er mwyn manteisio ar y symud tuag at weithredu'n ddigidol (yn sgil COVID-19), gan gyflwyno 2/3 o gyfleusterau digidol newydd bob blwyddyn.<br>*2.* Traddodi darlithoedd cyhoeddus ar-lein drwy'r isadeiledd newydd, 1 yn y flwyddyn.<br>*3.* Cynnal Gŵyl Ymchwil flynyddol a fydd yn para wythnos, yn dechrau yn 2021.<br>*4.* Sefydlu rhaglen 'Y Byd a Hoffem'.<br>*5.* Datblygu cysyniad gweithredol ar gyfer meithrin cyswllt â phobl ifainc yn yr Hen Goleg.<br>*6.* Cydweithio â Gŵyl y Gelli er mwyn datblygu cynnwys digidol i sicrhau bod yr ŵyl yn cyrraedd yn ehangach (gan gynnwys ysgolion).<br>*7.* Ymgysylltu â Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru i alluogi rhannu arfer da a Phrifysgolion eraill Cymru ac archwilio ffyrdd mwy deinamig o ymgysylltu. |
| **5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag [Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru]? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:** |
| ☑ Rhagoriaeth<br>☑ Lle<br>☑ Arloesi<br>☑ Cydweithredu |
| **5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig a meithrin cyswllt â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?** |

Ein nod yn ystod cyfnod CAYC yw sefydlu model cynaliadwy ar gyfer cenhadaeth ddinesig a meithrin cyswllt â'r cyhoedd, sy'n manteisio ar y newidiadau digidol er mwyn gallu siarad â chymunedau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â'r gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu isadeiledd digidol newydd i alluogi cynnal digwyddiadau cyhoeddus ar-lein, sefydlu'r Talwrn Trafod fel canolbwynt cydlynu, sefydlu rhaglen 'Y Byd a Hoffem', a model gweithredol i'r Parth Ieuenctid yn yr Hen Goleg. Ein cerrig milltir i'r tymor canolog yw datblygu'r gwaith hwn drwy'r Hen Goleg ar ei newydd wedd, a fydd yn ein helpu i wireddu ein huchelgais hirdymor i'r Hen Goleg fel canolfan uchel ei pharch yn rhyngwladol am feithrin cyswllt â'r cyhoedd, a fydd yn cyfrannu at ein targedau ar gyfer cenhadaeth ddinesig.

Mae'r trywydd hwn yn adeiladu ar sail ein rhagoriaeth sefydlog o ran ein cysylltiadau â'r cyhoedd yn lleol ac yn rhanbarthol, gydag ymdeimlad cryf o'r fro o'n cwmpas (gan gynnwys ein hymrwymiadau i'r Gymraeg ac i hybu diwylliant Cymru). Mae'r newid digidol yn rhoi modd i ni fod yn fentrus yn ein dull o weithio; rydym yn disgwyl bod yn hyblyg a gallu ymateb i gyfleoedd a datblygiadau newydd. Drwy ein cysylltiadau sy'n datblygu â rhanddeiliaid lleol (gan gynnwys grwpiau ieuenctid), digwyddiadau cenedlaethol (yn enwedig Gŵyl y Gelli), a'r cysylltiadau posib â Phrifysgol Bangor yn y dyfodol, sefydlwn batrwm o gydweithredu yn y tymor hir.

**Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau**

**6. Polisi Cymru a'r DU**

Mae ein strategaeth CAYC wedi'i datblygu i gyd-fynd â *Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru: Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf* (https://www.ceredigion.gov.uk/media/7076/vision-for-growing-mid-wales_final_cy.pdf Mai 2020) ac wedi'i bwydo gan *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru a chan Gynllun Gweithredu Economaidd *Strategaeth Ddiwydiannol* y Deyrnas Unedig: 'Prosperity for All'. Mae'r agenda i godi gorwelion i bawb wedi'i seilio ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig ac fe ddylai pob rhanbarth gael y grym i ddatblygu twf mewn modd cynhwysol, teg a chynaliadwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'r heriau, hen a newydd, sy'n wynebu Cymru. Mae'r Brifysgol wrthi'n cydweithio'n agos â'i phartneriaid yn y Canolbarth i ddatblygu Bargen Twf i ymdrin â'r heriau hyn. Yn benodol, yn ôl y rhagolygon, mae'r Canolbarth yn wynebu cylch o ddirywio economaidd, sef 3.45% rhwng 2018 a 2040, o'i gymharu â'r twf a ragwelir yn economi Prydain, sef 7.4%, oherwydd y Cynnyrch Mewnol Crynswth isel a'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (sydd 82% o gyfartaledd Cymru a 65% o gyfartaledd Prydain), poblogaeth sy'n gostwng ac yn heneiddio, llai o gyflogaeth, methiant y farchnad, tâl isel a thlodi gwledig. Nod Partneriaeth Canolbarth Cymru https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/tyfu-canolbarth-cymru/ yw adeiladu ar sylfaen y cryfderau presennol ym meysydd

gweithgynhyrchu gwerth uchel, amaeth a bwyd, amddiffyn a diogelwch, a thwristiaeth. mae'n anelu at fanteisio ar yr asedau yn y sectorau hyn i hybu twf carbon isel a datblygu swyddi o safon dda.

Mae ein strategaeth CAYC yn cefnogi'r agenda yn llawn ac mae wedi'i datblygu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol drwy yrru twf cynaliadwy drwy ddatblygu isadeiledd modern a chysylltiedig a rhoi i bobl y sgiliau y mae eu hangen arnynt i'r byd cyfnewidiol sydd ohoni. Bydd y swyddi newydd yn golygu y gellir ymgymryd â mwy o waith a byddant yn cefnogi'r elfennau yn y Contractau Economaidd sydd i'w cael yn *Ffyniant i Bawb* a'r pum Galwad i Weithredu, sef datgarboneiddio, arloesi, datblygu allforion a masnach, cyflogaeth o ansawdd uchel sy'n datblygu sgiliau a darparu gwaith teg, ac ymchwil a datblygu. Datblygir clymau eraill o fentrau â busnesau er mwyn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial ac Amaeth. Bydd y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig yn cyfrannu at ddatblygu isadeiledd a sgiliau o fewn y sector amddiffyn a diogelwch, uchel ei asedau (sydd eisoes yn darparu cyflogaeth yn Aber-porth, Aberhonddu a Phontsenni) ac yn hybu peirianneg isel ei charbon. Mae AberArloesi a Chanolfan a Labordai Milfeddygol 1 yn ymdrin ag arloesi a methiant y farchnad o fewn amaeth a'r diwydiant bwyd (sy'n cyflogi tua 14,000 o bobl yn y Canolbarth), sy'n wynebu ansicrwydd yn sgil Brecsit ac sydd ag angen arloesi a buddsoddi mewn datblygu sgiliau yn ddirfawr. Bydd y Talwrn Trafod yn cefnogi amrywiaeth o gysylltiadau â byd busnes, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, gan gyfrannu hefyd at yr arlwy i dwristiaid (mae twristiaeth yn cyfrif am 23,000 o bobl yn y Canolbarth). Bydd yn ffurfio sylfaen i genhadaeth ddinesig y Brifysgol ac yn darparu cyfleoedd ac ysbrydoliaeth i bobl i fynd i'r afael â'r heriau a nodir yn *Strategaeth Ddiwydiannol* y DU, sef Deallusrwydd Artiffisial a data, cymdeithas sy'n heneiddio, yr angen am dwf 'glân' a dyfodol symudedd.

Mae ein strategaeth CAYC hefyd wedi'i datblygu i gyd-fynd â'n Rhaglen Ariannu CEI i 2019-2021. Mae strategaeth CEI yn canolbwyntio ar ddau brif faes:

- Cefnogi busnesau newydd a sefydlir gan fyfyrwyr, graddedigion a staff
- Ymgorffori sgiliau cymwyseddau mentro masnachol yng nghwricwla holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Ychydig o gefnogaeth a gynigir yn strategaeth CEI i fusnesau deillio a seilir ar waith ymchwil, ac nid yw'n cynnig llawer i fusnesau o ran DPP; rhywbeth y bydd CAYC yn ymdrin ag ef. Bydd y ddau brosiect (sef CEI a CAYC) yn cydweddu â'i gilydd, yn sefyll y naill wrth ochr y llall yn y Ganolfan Fenter newydd. Mae prosiect CEI hefyd yn cwmpasu Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru (fel y disgrifiwyd yng nghynnig cyllid CEI Prifysgol Aberystwyth 2019-2021). Drwy gydosod CEI â CAYC yn y Talwrn Trafod fe fydd yr ymdrechion menter a busnes yn cael eu hatgyfnerthu, a fydd yn cyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy yn y maes gweithredu hwn yn y Brifysgol.

| **7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU** |
|---|
| |

Mae'r Brifysgol yn gweld y ddogfen hon yn gam cyntaf tuag at ddatblygu strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth newydd, gan adeiladu ar y polisïau a'r arfer presennol; ac mae'n adlewyrchu’n uniongyrchol yr egwyddorion a fraslunnir yn y Concordat https://www.keconcordat.ac.uk/:

1. *Cenhadaeth:* Mae ein Cynllun Strategol yn datgan ein hymroddiad i ddatblygu cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt drwy ddefnyddio ein gwybodaeth i fynd i'r afael â heriau lleol a byd-eang; ac mae'r weledigaeth a ddarlunnir yn y ddogfen hon yn datgan ymroddiad y Brifysgol i edrych ar ffyrdd newydd o gynnal trafodaethau a meithrin cysylltiadau, yng Nghymru ac ym mhedwar ban y byd.
2. *Polisïau a Phrosesau:* Mae'r ymrwymiadau yn cynnwys sefydlu polisi i fanteisio ar Gwmnïau Deillio/Eiddo Deallusol; cynorthwyo a chyfranogi o waith ymgynghorol ac ymchwil gontractiol drwy sefydlu strwythurau prisio a phrosesau wedi'u symleiddio; a datblygu dull clir o weithio o ran DPP.
3. *Meithrin Cyswllt*: Wrth wraidd y ddogfen hon y mae gweddnewid ein harferion a'n cyfleoedd i feithrin cyswllt drwy ddatblygu'r 'Talwrn Trafod'. Gweithiwn i sefydlu llwybrau clir i feithrin cyswllt â chydweithredwyr a rhanddeiliaid allanol (gwefan, dulliau hawdd o wneud ymholiadau a gosod safonau lefel gwasanaeth ayyb); strategaeth ar gyfer meithrin cysylltiadau â chydweithredwyr allweddol mewn modd strategol; a fframweithiau contractiol clir ar gyfer magu a rheoli partneriaethau strategol.
4. *Gweithio'n Effeithiol*: Byddwn yn sefydlu Uned Moeseg ac Uniondeb a fydd yn datblygu ein gallu i sicrhau bod ein gweithgareddau arloesi a chyfnewid gwybodaeth yn deg, yn foesegol ac yn agored.
5. *Meithrin Capasiti:* Bydd CAYC yn golygu y gallwn ddatblygu'r ddarpariaeth bresennol yn sylweddol, o safbwynt swyddi newydd i gynorthwyo â chyfnewid gwybodaeth ac arloesi, gwella'r ddarpariaeth datblygu sgiliau, a datblygu DPP o safbwynt pecynnau masnachol ac yn rhan o'r 'Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid'.
6. *Cydnabyddiaeth a Gwobrwyo:* Mae cyfnewid gwybodaeth wedi'i gynnwys yn y gweithdrefnau sydd newydd eu hadolygu ar gyfer dyrchafiadau academaidd (drwy'r adran ar 'arweinyddiaeth'), ac rydym wedi datblygu Gwobr Prifysgol Aberystwyth am Effaith Ymchwil Eithriadol, sef dwy wobr a gyflwynir ar adeg y graddio.
7. *Gwella Parhaus:* Defnyddiwn y rhaglenni datblygu sgiliau i rannu'r ymarfer gorau yn fewnol; a defnyddiwn holiaduron â phartneriaid i ddarparu adborth i helpu i wella ein harferion a'n gweithdrefnau.
8. *Cloriannu Llwyddiant:* Cydnabyddwn fod CAYC a'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth gyda'i gilydd yn fan cychwyn ar gyfer datblygu newid yn y ddarpariaeth cyfnewid gwybodaeth. Byddwn felly yn cychwyn ar waith monitro rheolaidd ar ein perfformiad cyfnewid gwybodaeth yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a fydd yn cynnwys dangosyddion ansoddol a meintiol fel ei gilydd, ac fe gyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol (a fydd yn cael ei ailenwi'n 'Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi') a'r Weithrediaeth Strategol.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Mae ein gweledigaeth i CAYC yn ategu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy hybu:

- Cymru lewyrchus, drwy bwysleisio arloesi, datblygu sgiliau a defnyddio mwy o dechnolegau ar-lein sy'n lleihau'r allyriadau carbon a grëir drwy deithio;
- Cymru gydnerth, drwy fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac economaidd (y Canolbarth yn enwedig) drwy feithrin mwy o gyswllt â phobl ifainc, datblygu sgiliau, busnesau newydd a masnacheiddio;
- Cymru sy’n fwy cyfartal, drwy ddatblygu sgiliau, DPP a chyswllt â phobl ifainc
- Cymru iachach drwy weithio ar fwydydd y dyfodol, ymchwil filfeddygol, a hybu gweithgareddau diwylliannol a chreadigol ymhlith y cyhoedd a fydd yn hybu lles meddyliol;
- Cymru o gymunedau cydlynus drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein i wella cysylltiadau;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu drwy sicrhau bod digwyddiadau diwylliannol a chreadigol ar gael yn ehangach, drwy ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog lle bo hynny'n bosib, a thrwy benodi staff sy'n medru'r Gymraeg;
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy sefydlu Undeb Moeseg ac Uniondeb, a thrwy ddefnyddio technolegau ar-lein i greu arferion gweithio mwy cynaliadwy.

Mae wedi'i bwydo gan y pum dull o weithio:

1. Mae'n **hirdymor** drwy ymgorffori'r dull newydd o edrych ar arloesi a chyfnewid gwybodaeth yng ngwaith ailddatblygu'r Hen Goleg a thrwy’r cerrig milltir a'r uchelgais a ddisgrifir yn y strategaeth;
2. Mae'n **integredig** drwy ymgorffori'r 7 amcan yn ein gweledigaeth;
3. Mae'n **cynnwys** y gymuned fusnes a'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fentrau newydd;
4. Drwy'r Talwrn Trafod, mae'n hyrwyddo cysylltiadau **cydweithredol** â'r sector busnes a'r cyhoedd;
5. Ac mae'n **atal** amodau cymdeithasol ac economaidd rhag gwaethygu, yn enwedig yn sgil COVID-19, drwy ddatblygu sgiliau, cyfleoedd a thrwy feithrin cyswllt â'r cyhoedd.

## 9. Effaith ar y Gymraeg

Mae gan y Brifysgol ymroddiad hanesyddol i'r Gymraeg sydd wedi'i hen sefydlu, ac fe fydd buddsoddiad CAYC yn ein helpu i ymdrin yn bennaf â dwy o dair thema Cymraeg 2050. Yn gyntaf, bydd yn golygu y gallwn hybu defnyddio'r Gymraeg mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Mwy o ddarpariaeth DPP drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mwy o gyswllt â'r cyhoedd, naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu gyda darpariaeth yn Gymraeg;
- Mwy o gyswllt â phobl ifainc drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Ŵyl Ymchwil a'r Ŵyl Ddigidol i hybu'r Gymraeg ac i ddarparu digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd hynny'n golygu mwy o Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, sydd ymhlith prif amcanion Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050.

Yn ail, fe fydd yn creu amodau sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg drwy:

- Datblygu isadeiledd economaidd y Canolbarth, cefnogi isadeiledd cymdeithasol-economaidd y cymunedau Cymraeg eu hiaith;
- Integreiddio'r Gymraeg i ddiwylliant cyfoes, drwy ei defnyddio mewn digwyddiadau creadigol a diwylliannol a thrwy gefnogi gwaith arloesi creadigol a diwylliannol yn y Gymraeg;
- Galluogi a hybu defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau digidol; a
- Drwy godi proffil digwyddiadau megis yr Ŵyl Ymchwil, rhaglen 'Y Byd a Hoffem', a'r Ŵyl Ddigidol, sy'n cyd-fynd â thema 'digwyddiadau mawr' Cymraeg 2050.

**Adran D: sicrwydd ariannol**
**10. Defnyddio cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru**

Defnyddir ein dyraniad CAYC 2020/21 ar dri maes eang:


1. *Swyddi:* Mae Adran 2 yn nodi swyddi mewn 5 maes, y penodir y rhan fwyaf ohonynt yn ystod 2021, ar y cyd â swyddi ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth DPP a nodir yn adran 4. Byddwn hefyd yn defnyddio CAYC ar gyfer ymgynghoriaeth Canolfan a Labordai Milfeddygol 1.

2. *Rhaglenni:* Byddwn yn mabwysiadu dull rheoli newid yn seiliedig ar raglen ar gyfer pob DPA ac yn dechrau buddsoddi yn y rhaglenni hyrwyddo a sgiliau KE canlynol: 'Bio-Accelerate', gwobrau cychwyn busnes/cwmnïau deillio, hyfforddiant i staff a myfyrwyr ym meysydd datblygu busnes a masnacheiddio, cymorth i'r 'Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid', y Rhwydwaith Gwytnwch ac Arloesi Gwledig, 'Y Byd a Hoffem', a'r Ŵyl Ymchwil.

3. *Isadeiledd:* Defnyddiwn y CAYC i fuddsoddi yn adnoddau'r 'symud digidol', ac ar gyfer ailwampio swyddfeydd i fusnesau newydd yng Nghampws Arloesi a Menter Aberystwyth.

Amcangyfrifwn mai 60% o gyllid CAYC a fydd yn cael ei wario ar y flaenoriaeth gyntaf; 20% ar yr ail; a 20% ar y drydedd. Nid yw'r Brifysgol yn cynnig bod y Gwasanaethau Proffesiynol yn dychwelyd i'w swyddfeydd tan Tachwedd 2021 oherwydd COVID-19. Rydym yn ymwybodol bod angen darparu cyflwyniad effeithiol i'r Brifysgol, ac y gallai problemau godi efallai wrth i staff gychwyn ar swyddi newydd cyn i'r gweithlu ddychwelyd i'r swyddfeydd. Mae hyn yn creu ansicrwydd mawr ynghylch pryd fyddai'r adeg orau i ddechrau penodi i'r swyddi yn y flaenoriaeth gyntaf, ac felly ynghylch y gwariant ar y swyddi hyn.

Yn y dyfodol, ein blaenoriaethau fydd cynnal a datblygu'r swyddi a'r rhaglenni hyn, parhau â'r buddsoddiad yn isadeiledd y 'symud digidol', buddsoddi yn y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol (gan gynnwys eu rhaglen MA) a Chadwrfa Ddigidol Sicr Cymru, datblygu cynnwys DPP ychwanegol, datblygu syniadau a chynlluniau gweithredu i'r Hen Goleg (gan gynnwys y Parth Ieuenctid a'r Parth Menter ac Arloesi), ystyried posibilrwydd cydweithio â Cholegau Addysg Bellach ar ddatblygu sgiliau, a lansio'r Ŵyl Ddigidol.

| **Adran E:**<br>**Gofynion rheoliadol**<br><br>*DS: Gallai CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o’r meysydd hyn* | |
|---|---|
| i) Safonau Iaith Gymraeg (2018) | Mae’r strategaeth hon yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg 2018 |
| ii) Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb | Nid oes asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb wedi’i gynnal ar gyfer y strategaeth hon |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) | Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 |
| **Llofnod:**<br>**Yr Is-Ganghellor** |  |
| **Dyddiad** | 05/01/2022 |